**EITEM AR YR AGENDA: 4**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**5ed Rhagfyr 2013**

## YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2014-15

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub am y cynnydd wrth ddatblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2014-15 ac i gyflwyno'r argymhellion a wnaed gan y Panel Gweithredol fel rhan o'r broses

## Cefndir

2 Yng nghyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol ar 16eg Medi 2013, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2014-15 at ddiben ymgynghori. Mae'r ail amcan yn cyflwyno strategaeth ariannol arfaethedig y gallai'r Awdurdod seilio ei gynllun ariannol tymor canolig nesaf arni. Dyma'r cynnig:

> "Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014-15 i 2016-17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol."

3 Bydd yr Aelodau'n cofio bod hyn yn dilyn cyllideb sydd wedi ei rhewi ers tair blynedd, ac y bu'n rhaid gwneud cyfanswm o £2.4 miliwn o arbedion. Mae'r cyfnod hwn wedi gweld nifer y gweithlu, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol yn gostwng 9%. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn, mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni ei

amcanion, gan lwyddo, er enghraifft, i gynnal dros 22,200 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2012-13. Mae hyn i'w gyferbynnu â GTA Swydd Henffordd a Chaerwrangon sydd, yn ôl ei ddogfen ymgynghori ddiweddar, wedi cynnal tua 4,800 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2012.

## Gwybodaeth

4 Ar 16eg Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad amcanol refeniw a chyfalaf ar gyfer llywodraeth leol yn 2014-15 ynghyd â gwybodaeth ddangosol mewn perthynas â 2015-16. Adeg cyhoeddi'r setliad amcanol, roedd y cyllid cyffredinol ar gael ar gyfer 2014-15 yn cynrychioli gostyngiad o 3.5% neu £153 miliwn o gymharu â setliad 2013-14 ar gyfer llywodraeth leol, unwaith yr addaswyd ar gyfer trosglwyddiadau. Mae'r gostyngiad hwn, ynghyd â'r addasiad ar gyfer y newid yn yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn seiliedig ar gyfrifiad 2011, wedi arwain at ostyngiad o rhwng 3.5% a 4.6% yng nghyllid awdurdodau cyfansoddol Gogledd Cymru. Gellir mynegi hyn fel gostyngiad cyfartalog o 3.6% ar gyfer awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn 2014-15 ac 1.6% ar gyfer 2015-16. Dylai'r Aelodau gadw mewn cof y gall y setliad terfynol sydd i'w gyhoeddi erbyn canol mis Rhagfyr newid y ffigurau hyn.

5 Y cyngor gan Drysorydd yr Awdurdod yw y bydd yr effaith wirioneddol ar gyllidebau refeniw yn fwy oherwydd nad yw'r cyfrifiadau a grybwyllir ym mharagraff 4 yn cynnwys effaith chwyddiant a all amrywio ar gyfer gwahanol elfennau gwariant megis ynni, tanwydd cerbydau, cyflogau, ardrethi busnes. Mae addasiadau i adlewyrchu'r driniaeth gan Lywodraeth Cymru o grantiau yn symud i mewn i'r Setliad yn ffactor arall i'w ystyried, ynghyd ag effaith amddiffyn cyllidebau ysgolion, sy'n parhau i fod yn nodwedd o bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain oll yn cyfuno i effeithio ar y blaenoriaethau y mae gofyn i awdurdodau lleol, a hefyd yr Awdurdod hwn, eu hystyried wrth benderfynu ar gyllidebau i'r dyfodol. Felly, gellid dadlau bod y toriadau mewn gwirionedd yn rhyw 6.5%.

6 Yn amlwg, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar y Dreth Gyngor bob blwyddyn, a rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth y gwariant sydd ei angen i ariannu cost y Gwasanaeth Tân ac Achub. Cyngor y Trysorydd bob blwyddyn yw bod yr awdurdodau

cyfansoddol yng Ngogledd Cymru fel rheol yn disgwyl bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn llwyr ymwybodol o effaith y Setliad Llywodraeth Leol ac ni fydd 2014-15 yn eithriad yn hyn o beth. Wrth roddi'r cyngor hwn, dywed y Trysorydd ei fod hefyd yn ymwybodol bod angen i'r Awdurdod hwn ystyried ei sefyllfa ei hunan o ran safonau gwasanaeth a risgiau, sy'n cael eu crybwyll mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Rhaid i'r Aelodau ystyried y darlun llawn a gyflwynir iddynt yn yr adroddiad hwn. Bydd y Trysorydd yn gwneud sylwadau pellach, lle bo angen, yn y cyfarfod.

7 Trwy'r gwaith a wnaed gan Weithgor y Cynllun Gwella, mae'r Aelodau eisoes wedi dod i'r casgliad na ellir mwyach ganfod rhagor o arbedion sylweddol yn llinellau'r gyllideb nac yn y costau cefnogol, ac y bydd yn rhaid canfod unrhyw arbedion sylweddol pellach drwy leihau gwasanaethau. Mae gostyngiad o 6.5% yn cyfateb i dros £2 filiwn. Fel y gŵyr yr aelodau eisoes, mae arbediad o £1 filiwn yn unig yn cyfateb i gael gwared ag un peiriant tân amser cyflawn (a 28 o swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn) neu 8 o beiriannau'r system RDS a hyd at 100 o swyddi cysylltiedig (pan nad oes gorsaf yn cael ei chau) neu 7 o orsafoedd y system RDS ledled ardal y Gogledd. Yn fras, byddai arbed £3 miliwn yn golygu gweithredu pob rhan o'r uchod.

8 Bydd yr Aelodau'n gwybod hefyd fod y costau wedi eu lleihau eisoes o ganlyniad i ailstrwythuriad sylweddol a gynhaliwyd yn 2012 ac a arweiniodd at golli 20% o reolwyr yr ochr weithredol, 22 yn llai o swyddi diffoddwyr tân o ganlyniad i'r trefniadau cylchrestru a gyflwynwyd yn 2012-13, ynghyd â symud 12 o swyddi diffoddwyr tân eraill yn gysylltiedig â chael gwared ar griwiau pwrpasol y peiriant ALP. Hefyd, mae'r gwariant ar y staff cefnogol wedi lleihau gan ryw £180,000 ers 2011.

9 Petai'r Aelodau, o ganlyniad i'r setliad refeniw llywodraeth leol, yn dymuno adolygu eu penderfyniad ynglŷn ag amcanion gwella 2014-15, ni fyddai amser yn caniatáu i gynnal ymgynghoriad statudol gyda'r holl randdeiliaid er mwyn gallu gwneud y gostyngiadau hyn yn y Gwasanaeth yn 2014-15. Os ystyrir yr opsiwn hwn, byddai'n fwy realistig ceisio cael unrhyw ostyngiadau yng nghyllideb 2015-16.

## Risgiau a Chyfleoedd

10 Fel o hyd gyda'r broses o osod y gyllideb, mae'r prif risgiau i'r Awdurdod yn ymwneud â'r siawns o ddyfarnu cyflogau uwch na'r disgwyl, lefelau uwch o weithgarwch, grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gostwng neu eu diddymu, a chanlyniad setliad amcanol llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru.

11 Er na fydd modd gwybod tan 2014 beth fydd effaith y tair risg gyntaf, gwyddom nawr beth fydd effaith y setliad llywodraeth leol. I baratoi ar gyfer hyn, bu'r swyddogion yn gweithio i weld a oes cyfle yn y tymor byr i leihau'r gyllideb ar gyfer 2014-15 er mwyn rhoi amser i'r Aelodau ystyried unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2015-16 os ydynt yn dymuno hynny.

12 Mae un cyfle wedi dod i'r amlwg nawr o ganlyniad i'r penderfyniad i barhau â'r orsaf dân ac ambiwlans ar y cyd yn Wrecsam. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i wrthdroi'r £800,000 i gredydwyr, a oedd yn y cyfrifon refeniw yn 2012-13, a gellid defnyddio hyn, ynghyd â'r ddarpariaeth o £100,000 ar gyfer cyfraddau llog uwch a £100,000 o'r gronfa gyffredinol, i roi £1 filiwn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2014-15, sef gostyngiad o 3%. Y risg sy'n gysylltiedig â'r cam hwn yw y byddai angen i'r Awdurdod wneud arbedion o £1 filiwn y flwyddyn ganlynol dim ond i aros yn ei unfan, cyn unrhyw arbedion angenrheidiol ychwanegol i gwrdd â chyflogau a chwyddiant prisiau.

13 Ffordd fwy darbodus o fynd ati fyddai pennu cyllideb wedi ei rhewi am flwyddyn arall, 2014-2015, a symud yr £1 filiwn i gronfa gyffredinol y gellid ei defnyddio i dalu unrhyw orwariant a allai godi oherwydd mwy o weithgaredd. Dyma'r dull a argymhellwyd gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 28ain Hydref 2013.

14 Dylid pwysleisio bod argymhelliad y Panel Gweithredol am flwyddyn yn unig, ac nad yw'n gynaliadwy heb newidiadau arwyddocaol pellach i'r gwasanaeth neu ryw fath o amddiffyniad cyllidebol. Awgrymir gan y Clerc bod y Gweithgor Cynllun Gwella yn ystyried yn fanylach, y flwyddyn nesaf, y cydbwysedd rhwng risgiau pwysau cyllidebol a risg cyhoeddus a thrafod lefel o wasanaeth, gyda'r awdurdodau cyfansoddol, sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng y risgiau hyn.

## Argymhellion

15 Gofynnir i'r Aelodau wneud y canlynol:

(i) ystyried yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y broses o osod y gyllideb;

(ii) nodi'r risgiau o ran gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15;

(iii) cadarnhau y dylid llunio cyllideb 2014-15 ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau;

(iv) derbyn argymhellion y Panel Gweithredol y dylid rhewi'r gyllideb am bedwaredd flwyddyn a symud £1 filiwn i gronfa gyffredinol y gellid ei defnyddio i dalu unrhyw orwariant a allai godi oherwydd mwy o weithgaredd.